**Gareth Owens LL.B Barrister/Bargyfreithiwr**
Chief Officer (Governance)
Prif Swyddog (Llywodraethu)

Swyddog Cyswllt:
Nicola Gittins on 01352 702345
nicola.gittins@flintshire.gov.uk

At: Bob Aelod o'r Cyngor

Dydd Mercher, 1 Rhagfyr 2021

Annwyl Gynghorydd,

**RHYBUDD O GYFARFOD ANGHYSBELL**
**CYNGOR SIR Y FFLINT**
**DYDD MAWRTH, 7FED RHAGFYR, 2021 2.00 PM**

Yn gywir

Robert Robins
Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd

Sylwch: Bydd hwn yn gyfarfod rhithiol a bydd 'presenoldeb' yn gyfyngedig i Aelodau'r Cyngor.

Bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw ar wefan y Cyngor. Bydd recordiad o'r cyfarfod ar gael yn fuan ar ôl y cyfarfod ar https://flintshire.publici.tv/core/portal/home

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch ag aelod o'r Tîm Gwasanaethau Democrataidd ar 01352 702345.

**R H A G L E N**

| 1 | **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB** |
|---|---|

**Pwrpas:** I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau.

| 2 | **COFNODION** (Tudalennau 7 - 14) |
|---|---|

**Pwrpas:** I gadarnhau, fel cofnod cywir gofnodion y cyfarfod ar 19th Hydref 2021.

| 3 | **DATGAN CYSYLLTIAD** |
|---|---|

**Pwrpas:** I dderbyn unrhyw ddatganiad o gysylltiad a chynghori'r Aelodau yn unol a hynny.

| 4 | **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD** |
|---|---|

**Pwrpas:** Derbyn unrhyw gyhoeddiad fel y'I dosbarthywd.

| 5 | **DEISEBAU** |
|---|---|

**Pwrpas:** Mae hwn yn gyfle I Aelodau'r Cyngor gyflwyno deisebau ar ran pobl yn eu ward. Unwaith y byddant wedi dod I law, caiff deisebau eu pasio I'r Prif Swyddog priodol ar gyfer gweithredu ac ymateb iddynt.

**PRIF EITEMAU BUSNES**

| 6 | **STRATEGAETH GYFALAF 2022/23 – 2024/25** (Tudalennau 15 - 34) |
|---|---|

Adroddiad Rheolwr Cyllid Corfforaethol -

**Pwrpas:** Cyflwyno'r Strategaeth Gyfalaf 2022/23 – 2024/25 i'w chymeradwyo.

| 7 | **RHAGLEN GYFALAF 2022/23 – 2024/25** (Tudalennau 35 - 70) |
|---|---|

Adroddiad Rheolwr Cyllid Corfforaethol -

**Pwrpas:** Cyflwyno Rhaglen Gyfalaf 2022/23 – 2024/25 i'w chymeradwyo.

**EITEMAU CYFFREDIN BUSNES**

8 **DEDDF TRWYDDEDU 2003 DATGANIAD DRAFFT POLISI TRWYDDEDU RHAGFYR 2021 – RHAGFYR 2026** (Tudalennau 71 - 180)

Adroddiad Prif Swyddog (Cynllunio, Amgylchedd ac Economi) -

**Pwrpas:** I Aelodau ystyried a mabwysiadu Datganiad Polisi Trwyddedu am y cyfnod Rhagfyr 2021 i Rhagfyr 2026.

9 **ADRODDIAD BLYNYDDOL RHEOLI'R TRYSORLYS 2020/21** (Tudalennau 181 - 198)

Adroddiad Rheolwr Cyllid Corfforaethol -

**Pwrpas:** Cyflwyno Adroddiad Blynyddol Rheoli'r Trysorlys 2020/21 drafft i'r Aelodau.

10 **ADOLYGIAD O GYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL** (Tudalennau 199 - 206)

Adroddiad Prif Swyddog (Llywodraethu) -

**Pwrpas:** Adolygu cyfrifiadau Cydbwysedd Gwleidyddol y Cyngor gan fod Aelod newydd wedi ymuno â Grŵp Llafur yn dilyn is-etholiad Penyffordd.

11 **ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR LLYWODRAETH AC ARCHWILIO** (Tudalennau 207 - 246)

Adroddiad Rheolwr Archwilio Mewnol -

**Pwrpas:** Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol 2020/21 y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

12 **ADRODDIAD BLYNYDDOL TROSOLWG A CHRAFFU 2020/21** (Tudalennau 247 - 268)

Adroddiad Pennaeth Gwaesanaethau Democrataidd -

**Pwrpas:** Ystyried a chymeradwyo Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Chraffu ar gyfer.

**ER GWYBODAETH YN UNIG**

13 **CWESTINYNAU GAN Y CYHOEDD**

**Pwrpas:** Derbyn Cwestiynau Cyhoeddus ar gyfer yr eitem hon: doedd dim wedi dod I law erbyn y dyddiad cau.

## 14 CWESTIYNAU

**Pwrpas:** Nodi'r atebion I unrhyw gwestiwn a gyflwynwyd yn unol a Rheol Sefydlog 9.4(a) y Cyngor Sir: doedd dim wedi dod I law erbyn y dyddiad cau.

## 15 CWESTIYNAU GAN AELODAU AM GOFNODION PWYLLGORAU

**Pwrpas:** Mae'r Llyfr Cofnodion, Argraffiad 1 2021/22, wedi ei ddosbarthu i'r Aelodau. Mae hawl gan yr Aelodau ofyn cwestiynau am y cofnodion hyn, yn amodol ar gyfyngiadau penodol, a bydd yr atebion yn cael eu darparu yn y cyfarfod. Mae'n rhaid cyflwyno unrhyw gwestiwn i'r Rheolwr Democratiaeth a Llywodraethu cyn diwedd y diwrnod gwaith ar Dydd Mercher, 1 Rhagfyr, 2021.

## 16 RHYBUDD O GYNNIG (Tudalennau 269 - 270)

**Pwpras:** Derbyn unrhyw Rhybuddion o Gynnig: doedd dim wedi dod I law erbyn y dyddiad cau.

## 17 CYDNABOD GWASANAETH GAN BENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD SY'N YMDDEOL

**Pwrpas:** Cydnabod y 25 mlynedd o wasanaeth yng Nghyngor Sir Sir y Fflint Robert Robins, Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd sy'n ymddeol.

***Sylwch, efallai y bydd egwyl o 10 munud os yw'r cyfarfod yn para'n hirach na dwy awr.***

**Nodyn Gweithdrefnol ar redeg cyfarfodydd**

Bydd y Cadeirydd yn agor y cyfarfodydd ac yn cyflwyno eu hunain.

Bydd nifer o Gynghorwyr yn mynychu cyfarfodydd. Bydd swyddogion hefyd yn mynychu cyfarfodydd i gyflwyno adroddiadau, gyda swyddogion Gwasanaethau Democrataidd yn trefnu a chynnal y cyfarfodydd.

Gofynnir i bawb sy'n mynychu i sicrhau bod eu ffonau symudol wedi diffodd a bod unrhyw sain gefndirol yn cael ei gadw mor dawel â phosib.

Dylai'r holl feicroffonau gael eu rhoi "ar miwt" yn ystod y cyfarfod a dim ond pan fyddwch yn cael eich gwahodd i siarad gan y Cadeirydd y dylid eu rhoi ymlaen. Pan fydd gwahoddedigion wedi gorffen siarad dylen nhw roi eu hunain yn ôl "ar miwt".

Er mwyn mynegi eu bod nhw eisiau siarad bydd Cynghorwyr yn defnyddio'r cyfleuster 'chat' neu yn defnyddio'r swyddogaeth 'raise hand' sy'n dangos eicon codi llaw electronig. Mae'r swyddogaeth 'chat' hefyd yn gallu cael ei ddefnyddio i ofyn cwestiynau, i wneud sylwadau perthnasol ac yn gyfle i'r swyddog gynghori neu ddiweddaru'r cynghorwyr.

Bydd y Cadeirydd yn galw ar y siaradwyr, gan gyfeirio at aelod etholedig fel 'Cynghorydd' a swyddogion yn ôl eu teitl swydd h.y. Prif Weithredwr neu enw. O bryd i'w gilydd mae'r swyddog sy'n cynghori'r Cadeirydd yn egluro pwyntiau gweithdrefnol neu'n awgrymu geiriad arall ar gyfer cynigion er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor.

Os, a phan y cynhelir pleidlais, mi fydd y Cadeirydd yn egluro mai dim ond y rheiny sy'n gwrthwynebu'r cynnig/cynigion, neu sy'n dymuno ymatal a fydd angen mynegi hynny drwy ddefnyddio'r swyddogaeth 'chat'. Bydd y swyddog sy'n cynghori'r Cadeirydd yn mynegi os bydd y cynigion yn cael eu derbyn.

Os oes angen pleidlais fwy ffurfiol, bydd hynny yn ôl galwad enwau – lle gofynnir i bob Cynghorydd yn ei dro (yn nhrefn yr wyddor) sut mae ef / hi yn dymuno pleidleisio.

Yng nghyfarfodydd Pwyllgorau Cynllunio a Chyngor Sir mae amseroedd siaradwyr yn gyfyngedig. Bydd cloch yn cael ei chanu i roi gwybod i'r siaradwyr bod ganddyn nhw funud ar ôl.

Bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw ar wefan y Cyngor. Bydd recordiad o'r cyfarfod ar gael yn fuan ar ôl y cyfarfod ar https://flintshire.publici.tv/core/portal/home